

wavehill™

social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Dadansoddiad o'r Ymgynghoriadau ar Ganllawiau Ychwanegol Cwricwlwm i Gymru

Ebrill 2022



Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Awduron yr adroddiad:

Llorenc O'Prey

Ebrill 2022

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 2–4 Park Street, Bristol, BS1 5HS
- Swyddfa Gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- Swyddfa Llundain: 52 Cecile Park, Crouch End, London, N8 9AS

Manylion cyswllt:

Ffôn: 01545 571711
E-bost: wavehill@wavehill.com
Twitter: @wavehilltweets
Gwefan: www.wavehill.com

Dylai unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r adroddiad hwn gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at Llorenc O'Prey (llorenc.oprey@wavehill.com)

1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o farn a safbwyntiau ymatebwyr mewn perthynas o ganllawiau a dogfennau drafft sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru. Er mwyn cynorthwyo lleoliadau ac ysgolion i ymgysylltu ag elfennau o'r cwricwlwm newydd, mae ymarferwyr a rhanddeiliaid wedi bod yn cyd-gynllunio'r canllawiau a'r dogfennau drafft canlynol:

- [Cwricwlwm ar gyfer Lleoliadau Meithrin a Ariennir Nas Cynhelir](#)

Er mwyn deall pa mor ddefnyddiol a chlr oedd y dogfennau hyn, gofynnodd Llywodraeth Cymru am farn a safbwyntiau'r gymuned addysgol. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar bob elfen o'r canllawiau a'r dogfennau. Mae'r adborth a'r safbwyntiau wedi llywio datblygiad parhaus y dogfennau a'r canllawiau, cyn i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno i leoliadau ac ysgolion ym mis Medi 2022.

Caiff barn yr ymatebwyr ar bob elfen o'r canllawiau drafft ei harchwilio yn yr adroddiad yma. Mae hwn yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion, ac yna ceir archwiliad manwl o'r farn a'r safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr.

2 Cwricwlwm ar gyfer Lleoliadau Meithrin a Ariennir Nas Cynhelir

Er mwyn cynorthwyo datblygiad parhaus y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, gwahoddwyd ymarferwyr a rhanddeiliaid ehangach i fynegi eu barn ar y ddogfen.

2.1 Crynodeb o'r Ymatebion

Bwriad y cwricwlwm yw cynorthwyo'r rhai sy'n ymwneud â chynllunio a darparu addysg gynnar ar draws lleoliadau yng Nghymru. Cyfrannodd cyfanswm o 111 o ymatebwyr eu barn ar y cwricwlwm. Mynychodd 33 o ymarferwyr a rhanddeiliaid ehangach eraill gyfres o weithdai a oedd yn archwilio eu barn yn fanylach.

Canfyddiadau

Ar draws ymatebion ac mewn sgysiau mwy agored, roedd cefnogaeth gyffredinol i deimladau a chyfeiriad cyffredinol y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. Roedd hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar y pwysigrwydd sy'n cael ei roi yn y cwricwlwm ar y plentyn cyfan, datblygiad a chynnydd, chwarae, a phrofiad dilys, ymhlith ffactorau eraill, yr oedd yr ymatebwyr yn teimlo eu bod yn cyfateb i'w gwerthoedd a'u blaenoriaethau eu hunain.

Cyfeiriodd yr ymatebwyr hefyd at amrywiaeth o ystyriaethau ehangach yn ymwneud â'r cwricwlwm yn ymarferol. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at bwysigrwydd adnoddau, hyfforddiant a chymorth ehangach sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm. O'r safbwyntiau hyn, byddai cymorth ehangach yn bwysig o ran galluogi pob ymarferydd a lleoliad i ymgysylltu'n effeithiol â'r cwricwlwm newydd.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod dogfen y cwricwlwm ei hun yn glir, yn ddefnyddiol, yn ddiddorol ac, mewn rhai achosion, yn ysbrydoli. Mewn ymatebion meintiol i'r ymgynghoriad ar-lein, er enghraifft, roedd yr ymatebwyr ar gyfartaledd yn ymateb yn gadarnhaol iawn. Ar draws pob agwedd ar y cwricwlwm, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod y cwricwlwm yn glir a gwerthfawr o ran eu cynorthwyo i ymwneud â'r cwricwlwm newydd. Ystyriwyd bod elfennau ymarferol fel y cwestiynau myfyriol a gwella ymarfer yn arbennig o ddefnyddiol.

Lle'r oedd ymatebwyr yn cynnig sylwadau neu awgrymiadau ar sut y gellid cryfhau'r cwricwlwm, roedd y rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar fân newidiadau o ran strwythur, naws, iaith, cynnwys a phwyslais. Un thema allweddol, er enghraifft, oedd cynnwys rhagor o wybodaeth am rai agweddau ar y cwricwlwm. At hynny, cafwyd awgrymiadau a oedd yn ceisio gwella hygyrchedd y cwricwlwm i rai cynulleidfaoedd. Roedd y rhain yn cynnwys gwneud y cwricwlwm yn fwy hygyrch i'r rhai ar draws y sector a allai fod yn llai cyfarwydd neu hyderus â'r cysyniadau a/neu'r dulliau a geir yn y cwricwlwm. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys mwy

o ddefnydd o luniau, ffeithluniau ac esiamplau, er enghraifft, er mwyn helpu i gyfleu gwahanol agweddau ar y cwricwlwm a sut maent yn cyd-fynd yn ymarferol.

Ar y cyfan, teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y cwricwlwm, fel ag y mae, yn glir ac yn effeithiol. Ymhlith yr holl grwpiau, ystyriwyd bod y cwricwlwm i raddau helaeth yn werthfawr ac yn llawn gwybodaeth er mwyn helpu ymarferwyr a lleoliadau i ddeall y cwricwlwm newydd, ac i fyfrio a gweithredu arno. Caiff y themâu a'r safbwyntiau hyn eu harchwilio'n fanylach ar draws y bennod.

2.2 Cyflwyniad

Cefndir


Bwriad y cwricwlwm yw cynorthwyo ymarferwyr mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir i ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd y cwricwlwm yn gorwedd ochr yn ochr â Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei ddefnyddio gan lleoliadau i lywio'r gwaith o gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm o 2022.

Cafodd y cwricwlwm ei gyd-lunio gydag ymarferwyr o leoliadau a ariennir nas cynhelir ac mewn cydweithrediad agos â rhanddeiliaid allweddol. Mae'r cwricwlwm yn cydnabod bod pob plentyn yn unigryw a bod eu datblygiad yn gyflym rhwng eu genedigaeth a'u bod yn bum mlwydd oed. Yn ysbryd y Cwricwlwm i Gymru, nod y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir yw cynorthwyo datblygiad cyfannol drwy sicrhau bod anghenion datblygiadol plant yn y lle mwyaf blaenllaw o ran ymarfer addysgeg.

I gael rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad ynglŷn â'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, cliciwch [fan yma](#).

Ymatebion

Wrth gyflwyno eu barn ar y cwricwlwm, cynigiwyd amrywiaeth o gyfleoedd i ymatebwyr roi adborth, gan gynnwys drwy gyflwyniadau ar-lein neu drwy e-bost, neu'n bersonol drwy gymryd rhan mewn gweithdai. Gyda'i gilydd, rhoddodd 111 o ymatebwyr o'u hamser i gyflwyno eu barn mewn cyflwyniadau ffurfiol i'r ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion gan amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau, fel ymarferwyr ac arweinwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir:



Derbyniwyd ymatebion hefyd oddi wrth sefydliadau sydd â diddordeb mewn addysg gynnar, neu rai sy'n cynorthwyo lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. Roedd y rhain yn cynnwys awdurdodau lleol, cyrff ymbarél, undebau llafur, ac Estyn (rheoleiddiwr annibynnol lleoliadau meithrin).

Gweithdai

Er mwyn deall barn a safbwyntiau ymarferwyr a rhanddeiliaid ehangach ymhellach, cynhaliwyd pedwar gweithdy i greu trafodaeth fwy agored. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â rhieni, gwarchodwyr plant, lleoliadau cyfrwng Cymraeg, a swyddogion arweiniol anghenion dysgu ychwanegol. Gwnaeth cyfanswm o 33 o gyfranogwyr gymryd rhan mewn gweithdai i gynnig eu barn, sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad canlynol.

Natur Gynrychioliadol yr Ymatebwyr


Efallai y byddai hefyd yn ddoeth tybio nad yw ymatebwyr yr ymgynghoriad o reidrwydd yn gynrychioliadol o'r gweithlu ehangach yn y sector nas cynhelir yn ei gyfanrwydd. Gallai'r rhai a gyflwynodd ymatebion fod yn ansoddol wahanol i'r rhai a geir yn y sector yn gyffredinol. Efallai y bydd gan ymatebwyr gymhellion cryfach i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, er enghraifft, neu efallai y byddant yn fwy brwdfrydig i ymwneud â diwygio'r cwricwlwm a gwella ymarfer yn fwy cyffredinol. Roedd rhai ymatebwyr o sefydliadau sy'n cefnogi lleoliadau a ariennir nas cynhelir, er enghraifft, yn teimlo bod yna rai sy'n gweithio yn y sector nad ydynt efallai mor hyderus ynglŷn ag egwyddorion addysgeg sylfaenol sy'n llywio'r cwricwlwm newydd. Mae'n bosibl bod y lleisiau hyn wedi'u tangynrychioli yn y dadansoddiad. Dylid ystyried, felly, bod y dadansoddiad hwn yn rhoi syniad o farn a safbwyntiau ymatebwyr mewn perthynas â'r canllawiau, yn hytrach na'i fod yn gyfrif diffiniol o farn y sector addysg gynnar yn ei gyfanrwydd.

2.3 Cynllunio Effeithiol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr yn gyntaf i ba raddau'r oeddent yn teimlo y byddai'r cwricwlwm yn cynorthwyo'r cynllunio mewn lleoliadau a ariennir nas cynhelir.¹

Canfyddiadau Cyffredinol

Gyda'i gilydd, teimlai 85.8 y cant o'r ymatebwyr fod y cwricwlwm yn gefnogol o ran helpu ymarferwyr a lleoliadau i ymwneud yn effeithiol â chynllunio'r cwricwlwm:



Themâu Allweddol

Mynegodd yr ymatebwyr yn aml eu bod o'r farn bod y cwricwlwm yn glir a chefnogol. Teimlwyd ei fod yn werthfawr o ran helpu ymarferwyr a lleoliadau i ddehongli a gweithredu ar y cwricwlwm newydd, gan gynnwys mynd at i gynllunio:

Mae yna lawer ymhlith y tudalennau sy'n mynd i'r afael ag agweddau allweddol i'r ymarferwyr i'w helpu i ddehongli'r cwricwlwm newydd. Mae'r cysylltiadau â datblygiad plant a sgemâu yn cael eu croesawu er mwyn helpu ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant 3–5 oed i wneud cysylltiadau â datblygiad plant a'r dysgu sy'n digwydd yn ystod y blynyddoedd hyn. Bydd gwerth chwarae a dysgu pwrpasol ynghyd â phwysigrwydd arsylwi yn cynorthwyo'r ymarferwyr hynny sy'n newydd i'r sector, yn ogystal â chryfhau'r gweithlu presennol.

Blynyddoedd Cynnar Cymru

¹ Cwestiwn 2 – I ba raddau y bydd y cwricwlwm hwn yn cefnogi cynllunio effeithiol mewn lleoliadau a ariennir nas cynhelir?

Mewn ymatebion ffurfiol ac mewn trafodaethau mwy agored, mynegodd ymatebwyr yn aml eu bod yn cytuno â chyfeiriad cyffredinol y cwricwlwm, yn ogystal â phwysigrwydd cynllunio wrth lunio ymarfer ac annog dysgu a datblygu:

O ddarllen y cwricwlwm gyda thîm y staff, teimlwn y bydd hwn yn arf effeithiol i sicrhau bod dysgu o ansawdd da yn cael ei ddarparu i'r plant, [a] bydd y staff yn myfyrio ar eu hymarfer a'u cyflawniad eu hunain drwy sicrhau bod eu rôl fel ymarferydd gofal plant yn rhoi profiadau dysgu cyfannol i'r plant.

Arweinydd, Meithrinfa ddydd breifat

Teimlwn y bydd y cwricwlwm yn cefnogi cynllunio effeithiol ar gyfer darpariaeth sy'n adlewyrchu'r pedwar diben. Croesawn y ffocws cryf ar unigoliaeth ac anghenion pob plentyn, yn seiliedig ar wybodaeth drylwyr am ddatblygiad plant, fel man cychwyn ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm.

Estyn

Hygyrchedd a Rhagor o Wybodaeth

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cynnig cymorth amodol, gan gydnabod pwysigrwydd cynllunio'r cwricwlwm ac yn cynnig awgrymiadau o ble y gellid ei wneud yn fwy amlwg neu'n gliriach yn y ddogfen. Roedd y rhain yn cynnwys newid y strwythur ychydig a darparu rhagor o wybodaeth, gan gynnwys y ffordd y mae cynllunio, arsylwi ac asesu yn cysylltu â'i gilydd, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny:

Rydym yn falch o weld bod canllawiau wedi'u cynnwys ar arsylwi ac asesu a rôl hynny o fewn cynllunio ar gyfer dysgu; fodd bynnag, byddai'r adrannau hyn yn elwa o ymddangos yn gynharach yn y ddogfen, cyn y llwybrau datblygu, er mwyn atgoffa'r ymarferwyr o beth yw cylch cynllunio effeithiol. Mae cynllunio, arsylwi ac asesu effeithiol yn rhan annatod o ddysgu a datblygu effeithiol — mae angen canllawiau pellach ar sut i gynllunio ac arsylwi mewn ffordd feddylgar.

Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru

Thema mylol arall oedd rhagor o wybodaeth am y gwahanol fathau o gynllunio a ddylai ddigwydd i gynorthwyo dysgu a datblygu. I un ymatebydd, roedd hyn yn cynnwys gwahaniaethu rhwng cynllunio mwy strategol a chynllunio sy'n rhan o ddull addysgeg ehangach sy'n cysylltu'n agos â phroses ailadroddol o arsylwi, rhyngweithio a chynnydd:

Mae'r cwricwlwm hwn yn cynorthwyo ymarferwyr yn ein lleoliadau i gael gwell dealltwriaeth o ddarpariaeth sydd angen yn y blynyddoedd cynnar. Mae anghenion plentyn yn cael ei esbonio'n effeithiol drwy'r llwybrau datblygu ac mae hyn yn gryfder yn y ddogfen. Gyda chefnogaeth hyfforddiant, bydd yn cynorthwyo ymarferwyr i gynllunio'n fwy cyfannol a chefnogi datblygiad plant yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae angen cyfeirio yn gliriach ein bod yn caniatáu mwy o gynllunio yn y foment ac nid

gormod o gynllunio ymlaen llaw ar gyfer tasgau ffocws. Mae angen nodi'n gliriach bod cynllunio yn dechrau gydag arsylwadau o blant ac ymateb i'r anghenion hynny.

Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar

Codwyd ystyriaethau ehangach, gan gynnwys hyder a sgiliau'r holl ymarferwyr i ymgysylltu â'r cwricwlwm newydd. Teimlai rhai na fyddai pob ymarferydd yn gyfarwydd nac yn hyderus â'r egwyddorion a'r dulliau addysgeg sy'n cael eu disgrifio yn y cwricwlwm. Gallai hyn fod yn rhwystr i ymwneud â'r cwricwlwm newydd:

Mae yna lawer o wybodaeth ond gall fod yn ddryslyd gweld sut mae pob un yn cysylltu â'i gilydd. Rwy'n credu y bydd lleoliadau'n ei chael yn anodd ymgorffori llwybrau datblygu, meysydd dysgu, a sgiliau trawsgwricwlaidd yn eu gwaith cynllunio.

Swyddog Datblygu

Wrth ymateb i hyn, cynigiodd rhai ymatebwyr awgrymiadau, gan gynnwys nid yn unig ragor o wybodaeth ond gwella hygyrchedd y ddogfen hefyd. Mewn trafodaethau mwy agored, er enghraifft, teimlai cyfranogwyr (gan gynnwys gwarchodwyr plant) y byddai defnyddio rhagor o ddiagramau llif, lluniau a chrynodebau byrrach yn werthfawr. Byddai hyn yn eu helpu i ddeall hyd a lled y cwricwlwm newydd a chysylltu elfennau gwahanol â'i gilydd.

2.4 Y Pedwar Diben

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn i ba raddau'r oedd y cwricwlwm yn amlinellu'n glir sut y mae'r pedwar diben yn sail i gyflwyno'r cwricwlwm newydd.²

Canfyddiadau Cyffredinol

Mewn ymateb, roedd 74.5 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau'n glir:



Themâu Allweddol

Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn cynnig safbwyntiau cadarnhaol ac yn ymhelaethu ar eu barn yn tueddu i nodi bod y pedwar diben wedi'u hesbonio'n glir, a bod digon o fanylion i ddehongli'r rôl sydd ganddynt o ran arwain ymarfer:

Mae'r ddogfen gyfan yn cyfuno'n dda â'i gilydd ac mae'n hawdd gweld sut mae'r pedwar diben [yn sail] iddi.

Ymarferydd mewn lleoliad a ariennir nas cynhelir

Teimlwn fod digon o gyfeiriad uniongyrchol at y pedwar diben yn y ddogfen. Drwy gydol y ddogfen, rhoddir ystyriaeth addas i greu tueddiadau a chefnogi dysgu a fydd yn gosod dysgwyr ar y llwybr tuag at wireddu'r pedwar diben. Nid ydym o'r farn ei bod yn briodol cyfeirio'n fanylach at y pedwar diben ar hyn o bryd.

Estyn

² Cwestiwn 3 – Ydy hi'n glir sut mae'r pedwar diben yn sail i gyflwyno'r cwricwlwm?

Roedd safbwyntiau mwy cadarnhaol hefyd yn cael eu llywio gan y pwysigrwydd yr oedd yr ymatebwyr yn ei roi ar gwricwlwm sy'n cael eu yrru gan ddibenion, y pedwar diben o arwain ymarfer yn fwy penodol, yn ogystal â chyfeiriad ehangach y cwricwlwm newydd yn ei gyfanrwydd:

Caiff y pedwar diben eu hesbonio'n dda iawn ac mae'r holl lwybrau datblygu yn cydweddu'n glir â'r pedwar diben. Mae pob llwybr datblygu yn annog y plant i wneud dewisiadau, bod yn annibynnol a [bod] yn greadigol. Mae'r cwricwlwm yn cydnabod bod pob plentyn yn unigryw ac nad ydynt yn ffitio i oedrannau neu feysydd dysgu penodol. Mae'r dull cyfannol yn sicrhau y bydd y pedwar diben yn cael eu cyflawni'n briodol ar gyfer pob plentyn.

Tim Addysg Gynnar, Awdurdod Lleol

Rhagor o Wybodaeth

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo'n ansicr ynglŷn â rôl a phwrpas y pedwar diben yn y cwricwlwm. O'r safbwyntiau hyn, gellid cyfeirio'n gliriach at y pedwar diben yn y cwricwlwm. Byddai hyn o gymorth i ddeall y cwricwlwm ac ymgysylltu ag ef, gan gynnwys o ran gosod y pedwar diben oddi mewn i gynllunio, dysgu ac addysgu:

Ni cheir llawer o sôn am y pedwar diben yn fanwl, ar wahân i ddatganiadau'r pedwar diben yn yr adran Meysydd Dysgu a Phrofiad. O ystyried ein gwybodaeth gyfyngedig am y pedwar diben a'r cwricwlwm ar hyn o bryd, gallwn ryw fath o weld sut [maent yn sail] i'r cwricwlwm, ond nid yw wedi'i nodi'n arbennig o glir na diriaethol eto.

Arweinydd, Cylch Chwarae

O drafodaethau gyda gwarchodwyr plant, mae'n amlwg eu bod yn cytuno bod y pedwar diben yn sail i ethos y cwricwlwm hwn, ond maent nid ydynt mor glir ynglŷn â sut y bydd hyn yn cysylltu â chyflawni.

PACEY Cymru

Cynigiodd ymatebwyr eraill enghreifftiau mwy penodol o ble y byddai gwybodaeth bellach yn werthfawr. Roedd y rhain yn cynnwys cysylltiadau mwy penodol yn y cwricwlwm rhwng y pedwar diben ac elfennau penodol fel llwybrau datblygu. O'r safbwyntiau hyn, gallai'r wybodaeth hon gynorthwyo ymarferwyr i ddychmygu sut mae'r pedwar diben yn llywio'r dysgu ac addysgu:

Dim ond un cyfeiriad uniongyrchol sydd at benawdau'r pedwar diben ar y tudalennau agoriadol. Roeddem yn meddwl y byddai'r datganiadau o dan y penawdau yn cael eu crybwyll neu y byddai "sgiliau" sy'n ymwneud â phob un o'r datganiadau hyn yn berthnasol ac yn destun ffocws yn y cwricwlwm.

Arweinydd, Meithrinfa ddydd breifat

2.5 Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a'r Llwybrau Datblygu

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a oeddent yn teimlo bod y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn y llwybrau datblygu.³ Roedd cyfanswm o 75.2 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo bod y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn y llwybrau datblygu.

Themâu Allweddol

O'r rhai a oedd yn gadarnhaol ac yn cynnig sylwadau pellach, dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn teimlo bod y cysylltiadau'n cael eu cyfleu'n glir yn y cwricwlwm:

Wedi darllen ac ystyried y cwricwlwm hwn mae'r cyswllt rhwng y llwybrau datblygu a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn glir.

Arweinydd, Cylch Meithrin

Ydynt, mae'r datganiadau o'r hyn [sy'n bwysig] yn cael eu hadlewyrchu yn y pum llwybr datblygu, gan eu bod yn sicrhau bod y plentyn yn cael ei gadw'n ganolog fel bod eu hanghenion yn cael eu diwallu, ac [yn caniatáu] i ymarferwyr ddeall beth sydd bwysicaf i blant a'r hyn y dylem fod yn ei ystyried wrth gynllunio ac addysgu.

Ymarferydd, Meithrinfa ddydd breifat

Rhagor o Gysylltiadau, Gwybodaeth a Chymorth

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn teimlo eu bod yn ansicr neu nad oedd y datganiadau'n cael eu hadlewyrchu yn y llwybrau datblygu yn tueddu i nodi y byddai cysylltiadau pellach yn werthfawr:

Mae egwyddor y llwybrau datblygu yn gryf. Fodd bynnag, mae'n anodd gwerthuso a yw'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn cael eu hadlewyrchu'n briodol, gan nad yw'r dogfennau'n gwneud cysylltiadau clir ac amlwg i'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn y llwybrau datblygu.

Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar

Cafwyd amrywiaeth o awgrymiadau ar sut y gellid cryfhau cysylltiadau yn y cwricwlwm. Roedd y rhain yn cynnwys cysylltiadau mwy penodol yn y llwybrau datblygu â datganiadau penodol o'r hyn sy'n bwysig:

³ Cwestiwn 4 – Ydy'r llwybrau datblygu yn adlewyrchu mewn ffordd briodol y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig?

Mae'r rhan fwyaf o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn y llwybrau datblygu. Fodd bynnag, mae yna fylchau (gan gynnwys y celfyddydau mynegiannol a bod yn greadigol).

Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar

Teimlai eraill y gallai rhagor o wybodaeth a chymorth fod yn werthfawr er mwyn helpu ymarferwyr i ddeall ac ymgysylltu â'r llwybrau datblygu, y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, a'r cwricwlwm yn ehangach. Roedd hyn yn cynnwys rhagor o wybodaeth a allai helpu'r ymarferwyr i ymgysylltu â'r derminoleg a syniadau ac egwyddorion ehangach sy'n sail i'r Cwricwlwm i Gymru. Mewn sgysiau mwy agored, gan gynnwys gyda gwarchodwyr plant, awdurdodau lleol a swyddogion arweiniol anghenion dysgu ychwanegol, er enghraifft, nodwyd bod rhai ymarferwyr yn dal i geisio deall cyfeiriad cyffredinol y cwricwlwm newydd a sut mae popeth yn dod at ei gilydd. O'r safbwyntiau hyn, byddai cynnwys rhagor o wybodaeth neu gysylltiadau â chanllawiau ehangach yn werthfawr:

A allai fod cysylltiad mwy amlwg i'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn gyffredinol, yn enwedig i ymarferwyr llai profiadol? Efallai mai'r canllawiau yma'n unig y bydd ymarferwyr mewn lleoliadau nas cynhelir yn eu defnyddio, a chan mae wedi'u hychwanegu fel atodiadau'n unig y maen nhw, mae'n anoddach gweld y cyswllt os nad ydych yn gyfarwydd â dogfennau'r Cwricwlwm i Gymru. Nid yw atodiad o reidrwydd yn adlewyrchu cynnwys y ddogfen ac mae perygl y byddant yn cael eu datgysylltu o gynnwys y ddogfen hon. A oes darn o waith i'w wneud i integreiddio'r [datganiadau o'r hyn sy'n bwysig] yn fwy drwy elfennau allweddol y ddogfen hon, gan amlygu'r elfennau sy'n dod i'r amlwg / perthnasedd y cynnwys ar gyfer taith y dysgwyr?

Arall, Awdurdod Lleol

Yn ogystal, teimlai rhai ymatebwyr y byddai hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus yn werthfawr er mwyn helpu ymarferwyr a lleoliadau i ddeall ac ymwneud yn effeithiol â llwybrau datblygu a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig.

2.6 Llwybrau Datblygu a Cham Cynnydd 1

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn am eu barn ynghylch a fyddai cyflawni'r cwricwlwm yn sicrhau cynnydd plant o'r llwybrau datblygu i gam cynnydd 1.⁴ Dywedodd cyfanswm o 79.3 y cant o'r ymatebwyr y byddai'n cefnogi cynnydd. Roedd 13.4 y cant yn ansicr, a theimlai 7.2 y cant na fyddai'n gwneud hynny.

Themâu Allweddol

Wrth ymhelaethu ar eu barn, roedd y rhai a ymatebodd yn gadarnhaol yn tueddu i amlygu themâu fel eglurder y cwricwlwm o ran cyfleu sut i gefnogi cynnydd. At hynny, roedd yno gytundeb clir ac ymhlwg â theimlad cyffredinol y dull o gefnogi cynnydd yn y cwricwlwm:

⁴ Cwestiwn 5 – Ydych chi'n gallu gweld sut bydd cyflwyno'r cwricwlwm hwn yn sicrhau cynnydd plant o'r llwybrau datblygu i'r disgrifiadau dysgu yng ngham cynnydd 1?

[...] Mae 'Mae angen i mi [...]. Rwy'n dysgu sut i [...]. Mae fy ymdeimlad o berthyn yn cael ei gyfoethogi gan oedolion sydd [...] [yn helpu] i roi arweiniad clir i ymarferwyr. Mae'r disgrifiadau dysgu yn cefnogi'r llwybrau datblygu gyda dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Arweinydd, Cylch Chwarae

Rhagor o Wybodaeth

Roedd y rhai a oedd yn ansicr yn tueddu i nodi eu bod yn teimlo bod y llwybrau a'r camau cynnydd yn go eang eu natur. O'r safbwyntiau hyn, byddai rhagor o fanylion a gwybodaeth yn ddefnyddiol, gan gynnwys cynorthwyo darllenwyr i ddeall sut i'w gweithredu'n ymarferol o ddydd i ddydd:

Mewn egwyddor, gallaf weld sut y bydd cyflawni'r cwricwlwm hwn yn sicrhau cynnydd plant o'r llwybrau datblygu hyd at y disgrifiadau dysgu ar gam cynnydd 1. Fodd bynnag, wrth fapio'r llwybrau datblygu hyd at y disgrifiadau dysgu ar gam cynnydd cam 1, mae yna fylchau. Er enghraifft, dim ond tair sgil mathemateg sydd yn y llwybrau datblygu (o gymharu â llawer ar gam cynnydd 1). Hefyd iaith ac, felly, prin fydd y cynnydd, er y bydd [lleoliadau] hefyd yn gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Hefyd, nid oes llawer o gynnydd o lwybrau datblygu ar gyfer sgiliau creadigol plant.

Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar

Er bod y ddogfen yn gwneud cysylltiadau clir rhwng y sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol a cham cynnydd 1, nid yw hyn mor glir ar gyfer y cysylltiad rhwng y llwybrau datblygu a'r disgrifiadau dysgu ar gam cynnydd 1. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai rhagor o wybodaeth gael ei darparu i ddangos yn glir y cysylltiadau rhwng y llwybrau datblygu a'r disgrifiad dysgu perthnasol ar gam cynnydd 1. Byddai hyn yn cynorthwyo dull effeithiol o olrhain/asesu cynnydd plentyn a helpu i drosglwyddo i addysg amser llawn.


Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar

2.7 Diben y Llwybrau Datblygu

I archwilio cynnydd ymhellach, gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a oedd diben y llwybrau datblygu yn y cwricwlwm wedi'i esbonio'n glir.⁵

Canfyddiadau Cyffredinol

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod y cwricwlwm yn glir yn ei esboniad o'r llwybrau datblygu (89.6 y cant):



Themâu Allweddol

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ystyried bod yr adran hon o'r cwricwlwm yn glir ac yn werthfawr. Mewn cyflwyniadau ar-lein ac mewn sgysiau agored, roedd yr ymatebwyr yn aml yn gwerthfawrogi strwythur a nawys y ddogfen yn fawr. Mae'r dyfyniadau canlynol yn dangos hyn:

[Mae wedi'i] ysgrifennu yn llais y plentyn. Er mwyn gwneud arsylwadau ystyrllon cysylltiedig, bydd angen i [rywun] ddod yn gyfarwydd iawn â'r rhain, a fydd yn digwydd dros amser. Roeddwn i'n hoffi'r cysylltiad i 'mae fy natblygiad corfforol yn cael ei gyfoethogi gan' — h.y. rôl yr oedolyn a sut mae'r oedolyn yn darparu'r amgylchedd a'r profiadau cyfoethogi.

Arweinydd, Cylch Chwarae

Mae'r rhesymwaith ar gyfer pob un o'r llwybrau datblygu yn glir iawn er mwyn esbonio diben pob un ohonynt. Bydd y cynnwys a'r geiriad — 'Mae angen i mi [...] . Rwy'n dysgu sut i [...] . Mae fy natblygiad yn cael ei gyfoethogi gan [...] ' — yn cynorthwyo ymarferwyr i ddarparu addysg mewn ffordd gyfannol a dilys. Mae'n amlwg iawn mai'r

⁵ Cwestiwn 6 – I ba raddau y mae pwrpas y llwybrau datblygu wedi'i esbonio?

broses y mae plant yn mynd drwyddi yw'r flaenoriaeth ac yn llawer pwysicach nag unrhyw ganlyniad. Bydd yn cynorthwyo'r ymarferwyr i ddeall eu rôl a'r hyn y dylent fod yn ei wneud i gynorthwyo'r plant.

Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar

O'r ymatebwyr hynny a oedd yn ansicr neu'n teimlo nad oedd y cwricwlwm yn glir, dim ond tri a ymhelaethodd ar eu barn. Roedd y rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar syniadau cyffredinol am y cwricwlwm, yn hytrach nag ar unrhyw faterion neu bryderon penodol ynglŷn â'r llwybrau datblygu eu hunain. Roedd y rhain yn cynnwys nodi y byddai cymorth ehangach a rhagor o ganllawiau yn werthfawr er mwyn deall a gweithredu ar y cwricwlwm:

Byddai cynnwys lluniau / astudiaethau achos / enghreifftiau yn ein helpu i ddehongli a deall diben y llwybrau datblygu. Mae angen lleihau faint o destun sydd yn y ddogfen hon a chreu dogfennau ychwanegol, yn hytrach na'i bod yn un ddogfen hir iawn. O ystyried bod llwybrau datblygu yn anghyfarwydd i mi ac i ymarferwyr eraill yn y lleoliad, byddai hyfforddiant ar y llwybrau datblygu, [eu] diben, a strwythur cyffredinol y cwricwlwm hwn yn ein helpu i'w roi ar waith yn y lleoliad.

Arweinydd, Cylch Meithrin

2.8 Elfennau sydd ar Goll o'r Llwybrau Datblygu

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a oedd unrhyw beth ar goll o'r llwybrau datblygu.⁶ Nododd cyfanswm o 28.7 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo y byddai'n werthfawr cynnwys datganiadau ychwanegol neu fwy o bwyslais yn y llwybrau datblygu.

Themâu Allweddol

Nid oedd y rhai a oedd yn mynegi bod y llwybrau datblygu yn gynhwysfawr yn tueddu i ymhelaethu ar eu barn. Mewn sgysiauw mwy agored, roedd cyfranogwyr, gan gynnwys gwarchodwyr plant, yn teimlo bod strwythur, cynnwys a naws y llwybrau yn ddefnyddiol, ac yn gwerthfawrogi'r datganiadau 'Mae angen i mi' (a oedd yn eu galluogi i ddychmygu'r hyn yr oeddent yn ei olygu o ran ymarfer). Yn fwy na hynny, roeddent ar y cyfan yn cytuno â theimlad cyffredinol y llwybrau, sy'n canolbwyntio ar y plentyn cyfan (ymhlith ffactorau eraill).

Rhagor o Ddatganiadau neu Fwy o Bwyslais

Roedd yr ymatebwyr yn cyfeirio'n aml at ddatganiadau neu themâu penodol lle roeddent yn teimlo y gellid ehangu'r llwybrau datblygu. Thema a gododd dro ar ôl tro, er enghraifft, oedd pwysigrwydd hyrwyddo ac annog datblygiad y Gymraeg a diwylliant Cymru ym mhob lleoliad yn y llwybrau datblygu:

⁶ Cwestiwn 7 – Oes rhywbeth ar goll o ddatganiadau'r llwybrau datblygu?

Byddai'n fuddiol cynnwys cyfeiriad mwy penodol at y cyd-destun Cymreig ym mhob llwybr datblygu.

Estyn

O ystyried gweledigaeth 2050 Llywodraeth Cymru, byddai PACEY Cymru yn disgwyl gweld cysylltiadau cryf â'r rôl bwysig sydd gan y blynyddoedd cynnar i'w chwarae o ran cyflwyno'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Teimlwn ar hyn o bryd y gallai'r cysylltiadau hyn fod yn llawer cryfach.

PACEY Cymru

Mae defnyddio'r Gymraeg yn cael ei awgrymu ond nid yw'n ddigon clir yn y ddogfen. Dylid cynnwys yr awyr agored yn gryfach mewn perthynas â llesiant yn 'Mae angen i mi [...]' a 'gan oedolion sydd [...]'.

Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar

Roedd hefyd yno'r dymuniad i weld mwy o bwyslais ar agweddau ehangach ar ddatblygiad plant, a'u gweld yn cael eu ehangu, gan gynnwys lles, yn y llwybrau datblygu:

Dylai rhan o'r cyflwyniad i les gynnwys rhywbeth am les personol, hunanhyder, a hunan-barch [...]. Byddai'n dda cynnwys rhywfaint o eiriad sy'n nodi nad yw'r rhestr yn y llwybrau datblygu yn hollgynhwysol — nid yw'r ffaith bod rhywbeth heb ei ysgrifennu yn golygu nad yw'n rhywbeth sydd ddim yn digwydd neu na ddylai ddigwydd. Yn gyffredinol, mae'n tybio bod gan ymarferwyr sy'n defnyddio'r ddogfen ddealltwriaeth gyffredinol o ddatblygiad plant. Er bod hyn yn dda, mae angen i ni sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gael.

Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar

Cyfeiriodd y Comisiynydd Plant at feysydd penodol o'r llwybrau datblygu a allai gynorthwyo'r gwaith o gyfleu dull mwy ystyrlon o ymdrin â hawliau plant. Roedd yr ymateb yn cynnwys awgrymiadau ynghylch cynnwys diffiniadau mwy manwl o hawliau plant, sydd efallai'n troi'r naws ychydig tuag at iaith y gyfraith:

Yn wir o fewn y canllawiau eu hunain, mae camddealltwriaeth posibl yn codi. Ar t.13, paragraff 4.1, mae'r canllawiau'n nodi: 'Mae'r llwybrau'n cynrychioli hawl plentyn i gael profiad o amgylchedd lle y caiff chwarae ei werthfawrogi yn ei rinwedd ei hun ac fel rhan o ddysgu.' Rwyf yn croesawu bwriad y datganiad hwn, ond nid yw'n disgrifio hawliau plant yn gywir fel y'u nodir gan CCUHP. Awgrymaf fod hyn yn newid i: 'Mae'r llwybrau'n galluogi hawliau plant fel y nodir yn CCUHP, yn enwedig hawliau'r plentyn i chwarae, dysgu, a datblygu eu doniau a'u sgiliau. Mae'r [profiadau] sy'n cael eu cynrychioli drwy'r llwybrau yn sicrhau bod chwarae'n cael ei werthfawrogi yn ei rinwedd ei hun ac fel rhan o ddysgu.'

Comisiynydd Plant Cymru

2.9 Cynwysoldeb y Llwybrau Datblygu

Gan archwilio'r llwybrau datblygu ymhellach, gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn i ba raddau yr oeddent yn cynnwys pob plentyn.⁷ Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol bod y llwybrau datblygu yn gynhwysol (82.1 y cant).

Themâu Allweddol

Roedd y teimladau cadarnhaol tuag at gynwysoldeb a'r llwybrau datblygu yn cael eu hadlewyrchu hefyd mewn sgyrsiau mwy agored. Yn y gweithdai, er enghraifft, roedd swyddogion arweiniol anghenion dysgu ychwanegol yn gyffredinol yn teimlo bod y cwricwlwm yn glir o ran sut i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Cafodd y safbwyntiau hyn eu llywio hefyd yn sgil cydnabod a chytuno â dull a theimlad cyffredinol y cwricwlwm. Roedd llawer yn croesawu'r pwyslais ar y plentyn, y ffocws ar ddeall ac ymateb i anghenion unigol, a bod lle amlycach i arsylwi ffurfiannol (yn hytrach nag asesiad crynodol):

[Mae'n] hynod gynhwysol ac yn ystyried yr oedolion, yr amgylchedd a'r profiadau, yn hytrach na ['i fod yn] rhestr ticio blychau o bethau y mae angen i bob plentyn eu cyflawni yn erbyn [pwyntiau] penodol — yn gallu gweld plant yn gwneud cynnydd ar eu lefel eu hunain.

Arweinydd, Meithrinfa ddydd breifat

Mae'r llwybrau datblygu a'r ffordd y mae'r cwricwlwm wedi'i gyflwyno [yn hyrwyddo] cynwysoldeb, gan ei fod yn ddull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, ac yn canolbwyntio ar y plentyn unigol a'i daith drwy addysg.

Cydlynnydd Cynllunio, Cylch Meithrin

Hyrwyddo Rhagor o Gynwysoldeb

Teimlai nifer fach o ymatebwyr y gellid cryfhau'r llwybrau datblygu a'r cwricwlwm yn ehangach i'w gwneud yn fwy cynhwysol. Teimlai rhai swyddogion arweiniol anghenion dysgu ychwanegol na allent ddychmygu sut mae'r cwricwlwm yn cyd-fynd â phrosesau a dyletswyddau eraill, gan gynnwys drwy ddull Addysg a Gofal Plentynod Cynnar.

Teimlai rhai y byddai'n werthfawr ehangu'r llwybrau i gynnwys cydnabyddiaeth fwy penodol o amrywiaeth ar draws hil, crefydd a rhywioldeb, er nad oeddent yn siŵr sut y gellid cyflawni rhywfaint o hyn yn ymarferol ar gyfer plant iau. Teimlai ymatebydd arall y gellid mireinio'r ymadrodd '[g]weld fy hun a phobl fel fi' ar dudalen 14 i'w wneud yn fwy cynhwysol. Awgrymodd un ymatebydd y gallai'r dull hwn roi cydnabyddiaeth fwy penodol i blant a allai fod yn defnyddio dulliau cyfathrebu dieiriau yn bennaf, er nad oeddent yn cynnig unrhyw sylwedd o ran y cynnig:

⁷ Cwestiwn 8 – Ydy'r llwybrau datblygu yn ddigon cynhwysol i gwmpasu pob plentyn?

Mae angen mwy ar gyfathrebu dieiriau.

Arolygiaeth Gofal Cymru


Cyfeiriodd swyddogion arweiniol anghenion dysgu ychwanegol hefyd at amrywiaeth o faterion ehangach y tu hwnt i'r cwricwlwm ei hun sy'n cynorthwyo cynwysoldeb mewn lleoliadau addysg gynnar. Roedd y rhain yn cynnwys pwysigrwydd nodi ac ymyrryd yn gynnar, bod y cymorth a gynigir yn gymharol gydlynol, a sgiliau ac arbenigedd ymarferwyr i gefnogi pob plentyn yn effeithiol.

2.10 Rolau'r Ymarferydd, yr Amgylchedd a Phrofiadau

Er mwyn iddynt ymhelaethu ar eu barn yn ehangach, gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a oedd y cwricwlwm yn egluro rolau'r ymarferydd, yr amgylchedd a phrofiadau yn glir.⁸

Canfyddiadau Cyffredinol

Fel yn achos rhannau eraill o'r cwricwlwm, roedd yr ymatebwyr (ar y cyfan) yn gadarnhaol iawn am yr eglurder ynghylch rolau'r ymarferydd, yr amgylchedd a phrofiadau:



Themâu Allweddol

Dim ond pedwar ymatebydd, er enghraifft, oedd yn ansicr neu'n teimlo nad oedd y ddogfen yn glir. O'r ymatebion mwy agored, nid oedd bob amser yn gwbl glir sut y gellid gwella'r elfen hon. Roedd un ymatebydd am weld mwy o bwyslais ar yr amgylchedd naturiol ac ar gynorthwyo ymarferwyr i ddarparu profiadau awyr agored ystyrllon i blant:

Rhaid i'r arfer o alluogi addysgwyr a dysgwyr i ymgorffori ymddygiadau o blaid yr amgylchedd sydd wedi'u normaleiddio fod yn brif sbardun i holl ganllawiau'r

⁸ Cwestiwn 9 –I ba raddau y mae rolau'r ymarferydd, yr amgylchedd a phrofiadau wedi'u hesbonio?

Cwricwlwm i Gymru. Er bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r ffaith bod defnyddio'r awyr agored yn cael ei roi'n gydradd (ochr yn ochr â dan do) fel cyfleoedd ar gyfer datblygiad plant a dysgu cyfannol, gyda chyfeiriadau penodol at yr amgylchedd naturiol, nid oes digon o arweiniad ar fanteision lluosog dysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer [...]. Ar hyn o bryd, nid oes gan staff sy'n gweithio mewn lleoliadau nas cynhelir ddigon o fynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol o safon uchel sy'n canolbwyntio ar addysgeg dysgu yn yr awyr agored [...]. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymhell yn gryf bod gan addysgeg dysgu yn yr awyr agored safle drosfwaol yn y canllawiau, h.y. wedi'i gosod mewn adran annibynnol yn y canllawiau hyn, yn hytrach na'u bod wedi'u gwau i mewn ar wahân i adrannau [Maes Dysgu a Phrofiad], neu adran 8.2 ("bod yn yr awyr agored"), fel yn achos canllawiau eraill y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer ysgolion a lleoliadau a gynhelir.

Cyfoeth Naturiol Cymru

2.11 Llwybrau a Rolau

Gan archwilio hyn ymhellach, gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a yw'r cysylltiadau rhwng y llwybrau a rolau'r ymarferydd, yr amgylchedd a phrofiadau, wedi'u hesbonio'n glir.⁹

Canfyddiadau Cyffredinol

Ar y cyfan, roedd lefelau tebyg o deimladau ynglŷn â'r eglurder rhwng y llwybrau a rolau'r ymarferydd, yr amgylchedd a phrofiadau. Roedd cyfanswm o 91.9 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo bod yr agwedd hon ar y cwricwlwm yn glir.

Themâu Allweddol

Unwaith eto, dim ond pedwar ymatebydd a nododd eu bod yn teimlo'n ansicr neu nad oedd y cwricwlwm yn glir. Roedd un ymatebydd, er enghraifft, yn teimlo bod yr elfen hon yn cyflwyno cysyniadau a syniadau newydd y gallai rhai eu cael yn anodd ymwneud â nhw; fodd bynnag, ni wnaethant gynnig unrhyw awgrymiadau sylweddol ar sut y gellid gwella'r ddogfen.

2.12 Llwybrau Datblygu a Sgiliau Trawsgwricwlaidd


Gan droi at sgiliau trawsgwricwlaidd, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau yr oeddent yn teimlo bod y llwybrau datblygu yn glir o ran sut y gallent gefnogi eu datblygiad.¹⁰

⁹ Cwestiwn 10 – I ba raddau y mae'r cysylltiad rhwng y llwybrau a rôl yr ymarferydd, yr amgylchedd a phrofiadau wedi'i esbonio?

¹⁰ Cwestiwn 11 – I ba raddau mae'r cwricwlwm hwn yn esbonio sut bydd y llwybrau datblygu yn helpu i ddatblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol?

Canfyddiadau Cyffredinol

Er bod 74.7 y cant o'r ymatebwyr o'r farn bod y cysylltiadau rhwng y llwybrau datblygu a'r sgiliau trawsgwricwlaidd yn glir, o gymharu ag agweddau eraill ar y cwricwlwm, yr elfen hon oedd yn peri'r petruso mwyaf. Roedd hyn yn cael ei yrru i raddau helaeth gan yr 16.8 y cant o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn teimlo nad oedd y cwricwlwm yn glir nac yn aneglur:



Themâu Allweddol

Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gweld bod y cwricwlwm yn glir o ran sut y gallai'r llwybrau datblygu gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd:

Roedd yn dda gweld bod hyn wedi'i rannu'n baragraffau i esbonio'n glir i ymarferwyr — nid yw'n ymddangos bod dim wedi'i gollu ac [roedd] yn hyfryd iawn gweld bod chwarae a phrofiadau chwareus ynghyd â phrofiadau dilys a phwrpasol wedi'u cynnwys i sicrhau mai dyma'r hyn sy'n arwain ac yn newid arferion.

Arweinydd, Meithrinfa ddydd breifat

Rhagor o Wybodaeth

O'r rhai a oedd yn teimlo y gallai'r cwricwlwm fod yn gliriach o ran ei gysylltiadau rhwng y llwybrau datblygu a sgiliau trawsgwricwlaidd, roedd un thema allweddol yn seiliedig ar gynnwys rhagor o wybodaeth a manylion yn y ddogfen. Roedd awgrymiadau o ble y gellid cryfhau'r cwricwlwm yn cynnwys addasiadau gweddol fach i'r ffordd y caiff rhai sgiliau trawsgwricwlaidd eu cyfleu yn y llwybrau datblygu:

Gallai wneud y broses yn haws pe byddai modd amlygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd yn y llwybrau datblygu. Mae sgiliau llythrennedd wedi'u nodi'n glir; nid yw sgiliau rhifedd a digidol yr un mor hawdd i groesgyfeirio atynt.

Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar

I rai, byddai rhagor o fanylion sy'n gwella'r cysylltiadau rhwng y llwybrau a sgiliau trawsgwricwlaidd yn werthfawr o ran gwella cysondeb dulliau gweithredu ar draws yr ymarfer:

Dylid gwneud y cysylltiadau rhwng y llwybrau datblygu a'r sgiliau trawsgwricwlaidd a'u lle yn y broses gynllunio yn gliriach yn y ddogfen. Gan fod y sgiliau yn yr adrannau trawsgwricwlaidd yn benodol, mae perygl y gallai rhai lleoliadau ddewis eu defnyddio yn hytrach na'r llwybrau datblygu heb sylweddoli'r cysylltiad rhyngddynt.

Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar

Awgrymodd rhai y gallai ffeithluniau neu elfennau eraill fod yn werthfawr er mwyn cyfleu'r cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar y cwricwlwm, gan gynnwys sgiliau trawsgwricwlaidd a'r llwybrau datblygu.

Amrywiadau mewn Ymagweddau at Ddatblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd

Roedd rhai'n mynegi ystyriaethau ehangach ynghylch datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd a sut y byddant yn cael eu hymgorffori a'u hyrwyddo gan ymarferwyr a lleoliadau. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon ymhyg a phenodol ynghylch y posibilrwydd o lawer o amrywiaeth yn y ffordd y caiff datblygiad sgiliau trawsgwricwlaidd ei ddehongli a'i weithredu. Cyfeiriodd un ymatebydd, er enghraifft, at bwysigrwydd rhagor o wybodaeth, arweiniad a chymorth i helpu ymarferwyr a lleoliadau i ymgysylltu'n effeithiol â datblygiad sgiliau trawsgwricwlaidd:

Er bod y ddogfen yn nodi y dylid ystyried y sgiliau trawsgwricwlaidd o fewn cynllunio i sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i'w cymhwyso, eu datblygu a'u hymestyn gan ddefnyddio'r llwybrau datblygu, credwn fod angen canllawiau pellach ar sut i wneud hynny.

Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru

2.13 Sgiliau Trawsgwricwlaidd ac Ymarfer Cyfannol

Gan archwilio sgiliau trawsgwricwlaidd ymhellach, gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn i ba raddau yr oeddent yn teimlo bod y cwricwlwm yn glir y dylid ymgorffori'r rhain o fewn ymarfer cyfannol ar draws y cwricwlwm.¹¹

Canfyddiadau Cyffredinol

Unwaith eto, er bod yr ymatebion yn gadarnhaol yn gyffredinol, roedd y farn ar yr ymarfer trawsgwricwlaidd a chyfannol ychydig yn llai ffafriol yn gyffredinol, o gymharu ag elfennau

¹¹ Cwestiwn 12 – I ba raddau y mae'n glir bod angen ymgorffori datblygiad y sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol yn arferion cyfannol y cwricwlwm cyfan?

eraill. Roedd 71.5 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo bod y cwricwlwm yn glir, a theimlai 16.8 y cant nad oedd yn glir.

Themâu Allweddol

Roedd safbwyntiau mwy cadarnhaol, mewn cyflwyniadau ar-lein ac mewn sgysiau agored, yn tueddu i gefnogi uchelgais a phwysigrwydd cyffredinol y sgiliau trawsgwricwlaidd a'r ymarfer cyfannol a argymhellwyd yn y cwricwlwm. Nododd rhai hefyd eu bod yn teimlo bod y dull gweithredu hwn eisoes wedi'i wreiddio'n gadarn o fewn ymarfer. O'r safbwyntiau hyn, roedd dull cyfannol yn gyfarwydd ac roedd y cwricwlwm yn mynegi'n glir sut y gellid cyflawni hyn yn ymarferol:

[Mae'n] glir y gallwn, drwy ddull cyfannol, gyflawni llawer mwy o gwricwlwm trawsgwricwlaidd, gan gyffwrdd ar sawl agwedd mewn un profiad.

Cydlynedd Cynllunio, Cylch Meithrin

Rhagor o Wybodaeth a Chysylltiadau

I'r rhai a nododd eu bod yn credu bod y canllawiau'n aneglur, roedd hyn (eto) yn tueddu i ganolbwyntio ar y cysylltiadau rhwng gwahanol elfennau o'r cwricwlwm yn y ddogfen. O'r safbwyntiau hyn, gellid cryfhau'r ddogfen drwy wneud cysylltiadau rhwng gwahanol elfennau o'r cwricwlwm yn gliriach ac yn fwy penodol, gan gynnwys adran ar gynllunio, a thrwy ddefnyddio rhagor o ddiagramau a chrynodebau i gyfleu'r berthynas rhwng gwahanol elfennau gyda'i gilydd. Roedd un ymateb yn cyfleu'r materion hyn:

Mae angen i hyn fod yn gliriach er mwyn cynorthwyo ymarferwyr i ddeall bod angen cynnwys profiadau sy'n datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd. Byddai cynnwys infograffeg i ddangos sut mae'r sgiliau traws-gwricwlaidd yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm o gymorth. Gellir defnyddio hwn wedyn pan fydd cysylltiad clir iddynt yng nghorff y cwricwlwm (fel sydd yn y cwricwlwm ar gyfer blynyddoedd cynnar Yr Alban 'Realising the ambition'). Byddai gosod adran cynllunio o gymorth mawr i ymarferwyr gan gynnwys esiamplau i ddangos yn glir y cysylltiad rhwng y llwybrau datblygu a'r sgiliau trawsgwricwlaidd. Byddai esboniad clir i'r ymarferwyr pa ddogfen sydd angen iddynt ddefnyddio wrth gynllunio yn ddefnyddiol – llwybrau datblygu / sgiliau trawsgwricwlaidd neu'r ddau. Mae angen mwy o gyfeiriadau / esiamplau o ddefnyddio profiadau digidol, caffael y Gymraeg, defnydd o fathemateg mewn bywyd go iawn.


Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar

2.14 Datganiadau Cynyddrannol a Sgiliau Trawsgwricwlaidd

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn i ba raddau'r oeddent yn teimlo bod y datganiadau cynyddrannol ar gyfer y sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol yn ddefnyddiol o ran helpu ymarferwyr i ddeall sut mae plant yn datblygu'r sgiliau hyn.¹²

Canfyddiadau Cyffredinol

Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y datganiadau cynyddrannol yn help mawr neu'n help aruthrol wrth gefnogi ymarferwyr i ymwneud â'r gwaith o ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd:



Themâu Allweddol

Roedd y rhai a oedd yn mynegi eu bod o'r farn bod y cwricwlwm yn ddefnyddiol yn tueddu i gyfeirio at eglurder y ddogfen ac i gytuno â'r dull cyffredinol o ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd:

Mae'n dangos cyfleoedd priodol ar gyfer cynnydd yn sgiliau'r plant yn y meysydd hyn. Maent o gymorth i'r ymarferwyr i wahaniaethu'n haws.

Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Thema allweddol ymhlith y rhai a deimlai fod y datganiadau cynyddrannol yn llai defnyddiol oedd pwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus. O'r safbwyntiau hyn, byddai hyfforddiant

¹² Cwestiwn 13 – I ba raddau y mae'r datganiadau fesul cam ar gyfer y sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol o help o ran cefnogi ymarferwyr i ddeall sut mae plant yn datblygu'r sgiliau hyn?

pellach yn werthfawr i ymarferwyr o ran eu helpu i ddeall ac ymgysylltu'n effeithiol â datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd:

Er bod y datganiad cynyddrannol yn glir, bydd hyfforddiant cefnogol i ymarferwyr yn helpu i fagu hyder ac yn helpu i ddod ag ymarfer yn fyw.

Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar

Cysondeb ac Eglurder

Thema arall, fwy ymylol, oedd pwysigrwydd cysondeb ac eglurder yn y datganiadau a'r cwricwlwm yn ehangach. Roedd rhai'n teimlo, er enghraifft, bod y datganiadau cynyddrannol yn hir, ac felly ei bod yn anodd ymwneud â nhw. Teimlai eraill fod ychydig o wahaniaeth o ran dull gweithredu rhwng y datganiadau cynyddrannol a'r llwybrau datblygu a allai olygu bod y datganiadau cynyddrannol yn anoddach eu dehongli a'u dilyn. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at thema cysondeb ar draws y ddogfen, gan gynnwys defnyddio termau cyson fel 'Rwy'n gallu' ac 'Rwy'n dechrau' ar draws yr holl gymwyseddau:

Mae'r ffocws yn fwy ar y sgiliau eu hunain na'r ffordd y maent yn datblygu, sy'n teimlo'n wahanol iawn i'r dull llwybrau datblygu, sy'n canolbwyntio mwy ar sut mae plant yn datblygu a rôl yr ymarferydd a'r amgylchedd wrth gefnogi hyn. Gan fod y sgiliau trawsgwricwlaidd yn canolbwyntio mwy ar y sgiliau na sut y cânt eu datblygu, mae perygl y gallai hyn fod yn rhestr wirio y bydd ymarferwyr yn ei defnyddio — a allai fod yn [gyfyngedig].

PACEY Cymru

Nododd sawl arweinydd Cylch Meithrin na allent ddychmygu sut y gallai'r datganiadau cynyddrannol weithio'n ymarferol:

Ar ôl darllen y datganiadau fesul cam ar gyfer y sgiliau Rhifedd / Llythrennedd / Cymhwysedd Digidol sy'n rhan o'r fframwaith yma (tudalennau 29–46), rwyf yn deall sut i sicrhau fod pob plentyn yn datblygu y sgiliau yma, mae'n glir fod y camau yma yn cynrychioli pob plentyn sydd yn mynychu ein darpariaeth. Rwyf yn meddwl y bydd y camau hyn yn ein cefnogi i symud y plant ymlaen (n)ac i ddatblygu eu sgiliau trawsgwricwlaidd ar hyd y continwwm dysgu. Rwyf yn gweld bod y disgrifiadau fesul cam yn rhy benodol (prescriptive).

Arweinydd, Cylch Meithrin

2.15 Gwybodaeth Ychwanegol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a oeddent yn teimlo y byddai unrhyw wybodaeth ychwanegol yn ddefnyddiol i'w chynnwys yn y cwricwlwm.¹³ Roedd rhai ymatebwyr yn dehongli'r cwestiwn hwn i olygu gwybodaeth ychwanegol ar draws y cwricwlwm cyfan, tra bod eraill yn ei ddehongli'n fwy penodol i olygu gwybodaeth ynglŷn â datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd.

Themâu Allweddol

Sgiliau Trawsgwricwlaidd

Roedd y rhai a oedd yn cynnig arsylwadau penodol ar y sgiliau trawsgwricwlaidd yn tueddu i fod ag awgrymiadau tebyg. Roedd y rhain yn cynnwys gwella eglurder a chysondeb yn y cwricwlwm, fel yn achos y llwybrau datblygu a'r datganiadau cynyddrannol. Nododd eraill y gallai fod gwerth mewn defnyddio iaith symlach i fynegi'r camau cynyddrannol:

Gallai sgiliau trawsgwricwlaidd annog ymarferwyr yn hawdd i ddefnyddio'r rhain fel offer cynllunio (yn hytrach na chanolbwyntio ar brofiadau dysgu). Bydd ysgrifennu'r camau cynyddrannol mewn iaith y gall pawb eu deal yn ei gwneud yn llai brawychus ac yn achosi llai o gamddealltwriaeth.

Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar

Sylwadau Ehangach

Ymhlith y rhai a oedd yn cynnig myfyrdodau ehangach, daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddio rhagor o ddiagramau, yn ogystal â chyfuno canllawiau cwricwlwm ehangach mewn un ddogfen:

Yng nghyfarfod y rhwydwaith, awgrymwyd defnyddio diagram llif darluniadol. Rwy'n teimlo y byddai ehangu'r pedwar diben yn fuddiol. Mae dogfennau eraill ar hyn, ond byddai cael y cyfan gyda'i gilydd mewn un lle yn ddefnyddiol fel un ddogfen.

Arweinydd, Cylch Chwarae

Thema arall oedd pwysigrwydd mynediad at gyfleoedd dysgu cyson o ansawdd uchel er mwyn deall y cwricwlwm a gweithredu arno. Mewn sgysiau mwy agored, er enghraifft, y farn yn gyson oedd y byddai hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus o ansawdd uchel yn hanfodol. Canfyddiad cyffredin oedd bod ansawdd a chysondeb yr hyfforddiant sydd ar gael i ymarferwyr a lleoliadau yn amrywiol iawn:

Mae angen i'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu fod yn gyson ledled Cymru er mwyn sicrhau bod y canllawiau hyn yn gweithio. Mae'n hanfodol er mwyn sicrhau hyder a chysondeb. Bydd rhai agweddau'n anghyfarwydd, fel llythrennedd corfforol, sgema, arsylwi, pwysigrwydd chwarae, arsylwi, dysgu dilys, a phontio'n effeithiol.

Arweinydd, Meithrinfa ddydd breifat

¹³ Cwestiwn 14 – Pa wybodaeth ychwanegol, os o gwbl, fyddai'n helpu?

2.16 Arsylywi ac Asesu

Gan droi at arsylywi ac asesu, gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn i ba raddau'r oedd y rhain yn glir yn y cwricwlwm.¹⁴

Themâu Allweddol

Teimlai cyfanswm o 89.4 y cant o'r ymatebwyr fod y cwricwlwm yn glir. Roedd y rhai a oedd yn cynnig sylwadau pellach yn tueddu i nodi eu bod yn cefnogi'r dull cyffredinol o arsylywi ac asesu sy'n cael ei amlinellu yn y cwricwlwm:

Mae pwysigrwydd arsylywi yn glir yn y ddogfen. Mae pwyslais addas ar ddod i adnabod plant yn dda, er y gall yr ymadrodd 'dealltwriaeth fanwl o bob plentyn' ar dudalen 48 annog ymarferwyr i ganolbwyntio ar gofnodi gwybodaeth am y plentyn (yn hytrach na datblygu darlun cyflawn ohono). Mae'r adran yn esbonio'n glir sut y gall arsylywi fod o fudd i ymarferwyr addasu'r ddarpariaeth i annog dysgu unigol. Mae'r ddogfen yn cyfeirio at ystod o dechnegau arsylywi ac er ein bod yn gwerthfawrogi y gallai eu rhestru fan yma arwain at ganlyniadau anfwriadol a gyrru ymddygiadau mewn ffordd ddi-fudd, teimlwn y byddai rhywfaint o gyfeiriad at dechnegau yn ddefnyddiol, o bosibl fel cyswllt â modiwlau hyfforddi Llywodraeth Cymru. Mae swyddogaeth a phwysigrwydd asesu hefyd yn glir, yn ogystal â'r cysylltiad pwysig rhwng y ddwy elfen. Yn yr adran hon, teimlwn fod y cwestiynau myfyriol sydd wedi'u cynnwys ar gyfer ymarferwyr ac arweinwyr yn ymarferol ac yn ddefnyddiol.

Estyn

Rhagor o Wybodaeth a Hyfforddiant

Nododd rhai ymatebwyr eu bod yn teimlo y byddai rhagor o wybodaeth yn werthfawr. Fel yn ymateb Estyn, roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth a fyddai'n helpu ymarferwyr i weithredu'r dull o arsylywi ac asesu yn ymarferol. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys defnyddio esiamplau, yn ogystal ag archwilio strategaethau a dulliau effeithiol drwy hyfforddiant a deialog broffesiynol gyda chymheiriaid:

Mae fy nhîm wedi dod yn gyfarwydd iawn [â] Phroffil y Cyfnod Sylfaen a gwneud arsyllwadau wythnosol. Teimlwn fod angen mwy o wybodaeth ac enghreifftiau o'r ffordd orau o gynnal arsyllwadau ac asesuadau. Byddai cyfarfodydd â lleoliadau eraill i drafod hyn hefyd yn cael eu gwerthfawrogi.

Cydlynnydd Cynllunio, Cylch Meithrin

Mewn sgysiau mwy agored, roedd rhai'n teimlo y gellid rhoi mwy o sylw i rôl a dull asesu yn y cwricwlwm. Roedd hyn yn arbennig o amlwg o ran sut mae asesu'n cyd-fynd â'r ymarfer a'r

¹⁴ Cwestiwn 15 – I ba raddau y mae rolau gwahanol arsylywi ac asesu, yn ogystal â'r cysylltiad rhyngddynt, wedi'u hesbonio?

cyfundrefnau arolygu presennol, y teimlai rhai y gallai fod tensiwn rhyngddynt. O'r safbwyntiau hyn, roedd canfyddiad y gallai ymddygiadau a dulliau arolygu presennol yrru arferion asesu, a heb wybodaeth a chymorth pellach gallai hyn arwain at wyro oddi wrth y dull a amlinellir yn y cwricwlwm:

Gallai fod gwrthdaro rhwng arsylwi/asesu parhaus a natur untro Proffil y Cyfnod Sylfaen ac asesiadau eraill sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd.

Arall, Awdurdod lleol

2.17 Gwella Ymarfer

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn i ba raddau yr oeddent yn teimlo bod yr adran ar wella ymarfer yn ddefnyddiol.¹⁵

Themâu Allweddol

Roedd cyfanswm o 79.1 y cant o'r ymatebwyr o'r farn bod yr adran ar wella ymarfer yn help mawr neu'n help aruthrol. Roedd hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar gyfeiriad ymarferol yr adran, a fyddai'n helpu ymarferwyr a lleoliadau i ymgymryd ag ymarfer myfyriol:

Gallai trosolwg defnyddiol ar lawer o agweddau ar y ddarpariaeth roi'r cymhelliant i leoliadau fynd ati i ddarllen a chael hyfforddiant ar eu menter eu hunain. Unwaith eto, [dylid gwneud] defnydd da o gwestiynau myfyriol. Bydd yr holl gwestiynau myfyriol yn ddefnyddiol iawn ar gyfer ymweliadau Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar ac ar gyfer hunanarfarnu mewn lleoliadau.

Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar

Cydbwysedd a Manylion

Roedd y rhai a deimlai y gellid cryfhau'r adran ar wella ymarfer yn tueddu i gynnig awgrymiadau croes ar sut y gellid ei gwella. Roedd rhai, er enghraifft, yn teimlo bod yr adran yn gwneud y ddogfen yn rhy hir ac yn anhylaw. O'r safbwyntiau hyn, gallai'r adran ymddangos mewn dogfen ar wahân:

Gallai hon fod yn ddogfen ar wahân i ategu'r cwricwlwm [...]. Gallai'r penawdau gael eu cynnwys yn y cwricwlwm gydag esboniadau ar ddogfen atodol ar wahân, y gellir ei diweddarau yn ôl yr angen a chyflwyno mentrau/dulliau gweithredu newydd.

Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar

Roedd eraill yn teimlo y gellid rhoi mwy o gnawd ar esgyrn y ddogfen, gan gynnwys darparu canllawiau mwy ymarferol:

¹⁵ Cwestiwn 16 – I ba raddau y mae'r adran ar wella ymarfer yn helpu?

Mae yna ddiffyg dyfnder drwy'r adrannau hyn. Mae hyn i gyd yn iawn os ydych yn ymarferydd profiadol [...] ond heb egluro sut i wella ymarfer, nid canllawiau yw'r rhain mewn gwirionedd — maen nhw'n fwy o gyfarwyddiadau.

Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar

2.18 Gwybodaeth Ychwanegol am Wella Ymarfer

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a fyddai unrhyw wybodaeth ychwanegol o gymorth yn yr adran ar wella ymarfer.¹⁶

Themâu Allweddol

Nid wnaeth llawer o ymatebwyr gynnig sylwadau ar sut y gellid cryfhau'r adran ar wella ymarfer. Roedd y rhai a wnaeth yn cynnig ystod amrywiol o safbwyntiau ac awgrymiadau, gan gynnwys ehangu'r adran i gynnwys mwy o bwyslais ar ddarpariaethau neu ystyriaethau penodol neu gyfeiriadau penodol atynt. Ymhlith yr awgrymiadau, er enghraifft, yr oedd cynnwys theori ymlyniad a damcaniaethwyr blynyddoedd cynnar, hyd at gyfeiriad mwy penodol at rwymedigaethau statudol o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Roedd awgrymiadau pellach yn cynnwys cyfeirio at ddeunyddiau a chanllawiau eraill a allai helpu i fynd ati i wella ymarfer.

Y Gymraeg a Diwylliant Cymru

Thema allweddol a godwyd gan rai ymatebwyr oedd mwy o gyfeirio at ddatblygu hyfedredd yn y Gymraeg ac ymgyfarwyddo â diwylliant Cymru, a rhoi mwy o bwyslais ar hynny. Roedd hyn yn cynnwys annog ac ehangu cyfleoedd i ddatblygu ac ymgorffori ymarfer dwyieithog.

2.19 Cwestiynau Myfyriol


Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a oedd y cwestiynau myfyriol yn ddefnyddiol o ran cefnogi cynllunio, annog ymarferwyr i ystyried eu gwybodaeth a'u sgiliau, a chynorthwyo gwelliant parhaus mewn ymarfer.¹⁷ At ei gilydd, cafodd y cwestiynau myfyriol dderbyniad da iawn gan yr ymatebwyr, mewn cyflwyniadau ar-lein ac mewn gweithdai.

Cefnogi Cynllunio

Ar y cyfan, roedd mwyafrif clir o'r ymatebwyr yn teimlo bod y cwestiynau myfyriol yn werthfawr o ran cefnogi cynllunio:

¹⁶ Cwestiwn 17 – Pa wybodaeth ychwanegol, os o gwbl, fyddai'n helpu yn yr adran hon?

¹⁷ Cwestiwn 18 – I ba raddau y mae'r cwestiynau myfyriol yn y cwricwlwm hwn yn helpu o ran: i) cefnogi gwaith trefnu, ii) ysgogi ymarferwyr i ystyried eu gwybodaeth a'u sgiliau, a iii) gwella arferion yn barhaus?



Mewn sgysiau mwy agored gydag amrywiaeth o gynulleidfaoedd, dywedwyd bod y cwestiynau myfyriol yn rhai sy'n ysgogi'r meddwl. Teimlwyd eu bod yn werthfawr wrth ysgogi trafodaeth gyda chymheiriaid a helpu ymarferwyr a lleoliadau i ddychmygu sut i fynd ati i gynllunio o amgylch y cwricwlwm newydd yn ymarferol:

[Rwy'n] hoff iawn o'r holl gwestiynau myfyriol ac yn teimlo eu bod yn cefnogi ymarferwyr, Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar, arweinwyr/rheolwyr lleoliadau, a rhieni. Byddant yn helpu i gefnogi cynllunio a darpariaeth ac os cânt eu rhannu â rhieni byddai'n eu galluogi i ddeall sut beth ddylai darpariaeth ac ymarfer o ansawdd uchel fod.

Athro Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar

Ehangu Cwestiynau


Teimlai rhai y gellid ehangu'r cwestiynau i gynnwys elfennau neu bynciau eraill. Roedd y rhain yn cynnwys agweddau penodol ar gynllunio neu ddarpariaeth yn y cwricwlwm newydd:

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymhell cynnwys cwestiynau myfyriol sy'n canolbwyntio ar addysgeg dysgu yn yr awyr agored. Er enghraifft: I ymarferwyr: Pa mor dda ydw i'n cefnogi dysgwyr i gysylltu â natur drwy chwarae a dysgu yn yr awyr agored? I arweinwyr: Pa mor dda ydw i'n cefnogi ac yn cynnal addysgeg dysgu awyr agored o ansawdd uchel er mwyn manteisio'n llawn ar y manteision lluosog sydd o ran iechyd a chyrraeddian yn sgil dysgu yn yr amgylchedd naturiol, amdano ac ar ei gyfer?

Cyfoeth Naturiol Cymru

Gwybodaeth a Sgiliau

Unwaith eto, roedd yr ymatebwyr (ar y cyfan) o'r farn bod y cwestiynau myfyriol ynghylch gwybodaeth a sgiliau yn ddefnyddiol:



Ar draws yr ymgynghoriad, roedd cydnabyddiaeth eang o'r rôl bwysig sydd i wybodaeth a sgiliau wrth lunio ymarfer ac wrth helpu i ymgysylltu â'r cwricwlwm newydd. Croesawyd y cwestiynau myfyriol ynghylch gwybodaeth a sgiliau, ac roeddent yn rhoi anogaeth ddefnyddiol i ymarferwyr a lleoliadau:

[Maent yn] ffordd wych i gefnogi ymarfer, a hefyd yn rhoi lle i rywfaint o gyfrifoldeb a chydabyddiaeth i ymarferwyr barhau i ddatblygu ymarfer.

Ymarferydd, Cylch Chwarae

[Byddant yn] caniatáu i staff fyfyrto ar eu hymarfer eu hunain ac yn helpu i nodi meysydd sy'n gryf a lle y gallai fod angen hyfforddiant neu gymorth.

Arweinydd, Cylch Chwarae

Mynediad at Hyfforddiant

Roedd yr ymatebwyr hynny a awgrymodd y gellid cryfhau'r cwestiynau yn tueddu i gynnig sylwadau ehangach. Roedd y rhain yn cynnwys pwysigrwydd hyfforddiant o ansawdd uchel a chyfleoedd dysgu proffesiynol parhaus i gynorthwyo ymarferwyr a lleoliadau i ymwneud â'r cwricwlwm newydd. Adlewyrchwyd hyn yn nhrefnadaethau'r gweithdai, gan gynnwys gyda gwarchodwyr plant a gyfeiriodd at rwystrau i gael mynediad at hyfforddiant, gan gynnwys diffyg cyfleoedd. Cyfeiriodd eraill at anghenion hyfforddi mwy penodol y teimlent y gellid eu cryfhau, gan gynnwys cefnogi datblygiad sgiliau sy'n ymwneud ag agweddau penodol ar y cwricwlwm (fel datblygu sgiliau trawsgricwlaidd a dysgu yn yr awyr agored):


Ar hyn o bryd, nid oes gan staff sy'n gweithio mewn lleoliadau nas cynhelir ddigon o fynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol o safon uchel sy'n canolbwyntio ar addysgeg dysgu yn yr awyr agored. Prin yw'r lleoliadau nas cynhelir sydd â digon o staff priodol o fedrus a gwybodus i alluogi dull lleoliad cyfan o ymgorffori ymddygiadau o blaid yr

amgylchedd wedi'u normaleiddio a diogelu a gwella tir y lleoliad neu ddefnyddio mannau awyr agored naturiol.

Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored

Cefnogi Gwelliant Parhaus mewn Ymarfer

O ran cwestiynau myfyriol a oedd yn ymwneud â chefnogi gwelliant mewn ymarfer, roedd mwyafrif yr ymatebwyr (unwaith eto) o'r farn eu bod yn help mawr neu'n help aruthrol:



Roedd llawer o'r ymatebwyr yn gwerthfawrogi cyfeiriad ymarferol y cwestiynau, gan gynnwys o ran annog ystyriaethau i gefnogi gwelliant mewn ymarfer. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr unwaith eto at bwysigrwydd datblygu gwybodaeth a sgiliau er mwyn cefnogi gwelliant mewn ymarfer:

Byddant yn ddefnyddiol ar gyfer nodi anghenion hyfforddi ac ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio camau gweithredu, gan eu bod yn amlygu sut beth ddylai ymarfer a darpariaeth o ansawdd da fod.

Arweinydd, Meithrinfa ddydd breifat

Cyfeiriodd eraill at bwysigrwydd deialog broffesiynol a chydweithio er mwyn cefnogi gwelliant mewn ymarfer. O'r safbwyntiau hyn, roedd y cwestiynau myfyriol yn werthfawr er mwyn cefnogi trafodaethau a chytuno ar amcanion:

Bydd y cwestiynau myfyriol yn ein helpu i asesu ein hunain, ein hymarfer a'n lleoliad. Gallwn ddefnyddio'r cwestiynau i'n helpu i symud ein hymarfer yn ei flaen, [edrych] ar yr hyn yr hoffem ei gyflawni a'i [ddefnyddio] i wella ein hymarfer.

Cydlynnydd Cynllunio, Cylch Meithrin

2.20 Effaith ar y Gymraeg

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r ymatebwyr wedyn a oedd yn archwilio effeithiau posibl y cwricwlwm ar y Gymraeg.

Themâu Allweddol

Ni nododd lleoliadau cyfrwng Cymraeg unrhyw bryderon sylweddol ynghylch y cwricwlwm a'i effaith ar ddarpariaeth drochi neu ddarpariaeth ddwyieithog. Roeddent yn tueddu i fynegi pryderon ehangach fel y gallu i recriwtio staff â hyfedredd yn y Gymraeg.

Fodd bynnag, i leoliadau ac ymarferwyr eraill, roedd yna thema gyson iawn ynghylch codi proffil y Gymraeg a diwylliant Cymru yn y ddogfen. Roedd hyn yn cynnwys pwysigrwydd nid yn unig codi proffil y Gymraeg a diwylliant Cymru mewn lleoliadau meithrin ond hefyd cynorthwyo lleoliadau i ddarparu mwy o ddarpariaeth Gymraeg:

Nid ydym yn teimlo bod gan y cwricwlwm bwyslais digon cryf ar ddatblygu'r Gymraeg, a [theimlwn] nad yw'n amlinellu sut y mae'n cefnogi ac yn gweithio tuag at wireddu gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Nid yw'r cwricwlwm yn ystyried yn ddigon da y gwahanol gyd-destunau sydd i ddatblygu'r Gymraeg ym mhob rhan o Gymru, e.e. defnyddio technegau trochi i ddatblygu sgiliau Cymraeg plant o gartrefi Saesneg eu hiaith yn bennaf. Yn gyffredinol, teimlwn y gellid cryfhau cyd-destun Cymreig y cwricwlwm hwn mewn llawer o feysydd, er enghraifft wrth hyrwyddo hunaniaeth Gymreig plant yn yr [adran ar berthyn].

Estyn

Cred NDNA Cymru nad yw'r gofyniad i gefnogi plant wrth iddynt ddysgu a datblygu'r Gymraeg yn ymddangos yn glir o fewn y cwricwlwm hwn. Mae cyfleoedd wedi'u colli i gysylltu datblygiad y Gymraeg â llwybrau datblygu a hyrwyddo a dysgu diwylliant Cymru a Chynefin. Yn anffodus, mae NDNA Cymru yn credu nad yw'r ddogfen yn ymddangos fel cwricwlwm sy'n hyrwyddo dysgu a datblygiad dwyieithog yn y sector nas cynhelir. Er bod MDPH leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn cynnwys datblygu'r Gymraeg, nid yw hyn yn trosi'n ddigon cryf i'r cwricwlwm hwn, ac efallai na fydd y gofyniad gorfodol i gefnogi datblygiad y Gymraeg yn amlwg i ymarferwyr.

NDNA Cymru

[...] nid ydym o'r farn bod y cwricwlwm hwn yn rhoi arweiniad digonol ar sut y dylid cyflwyno'r Gymraeg mewn lleoliadau meithrin (yn enwedig mewn perthynas â lleoliadau cyfrwng Saesneg). Mae ein pryderon yn ymwneud yn benodol â sut y dylai lleoliadau cyfrwng Saesneg gyflwyno'r Gymraeg i blant [...]. Y ffordd hawsaf i gyflawni [hyn yn ein barn ni] yw cynnwys adran benodol sy'n ymdrin â hyn yn y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin. Yn hytrach na gorfod ailadrodd hyn drwy gydol y ddogfen wrth gyfeirio at lythrennedd neu gyfathrebu, dylid cynnwys adran benodol sy'n ymdrin â natur ddwyieithog addysg yng Nghymru. Dylai'r canllawiau hyn adlewyrchu Deddf

Cwricwlwm ac Asesu Cymru mewn perthynas â model addysg drochi hyd at saith oed, a'r gofyniad statudol i bob lleoliad meithrin ac ysgol ddysgu Cymraeg o 3 i 16 oed [...].

Comisiynydd y Gymraeg

Cyfeiriwyd at hyn yn gyson ar draws yr holl grwpiau rhanddeiliaid (ac eithrio'r lleoliadau cyfrwng Cymraeg eu hunain), gan gynnwys gwarchodwyr plant, awdurdodau lleol a swyddogion arweiniol anghenion dysgu ychwanegol. Thema arall a gododd mewn gweithdai, er nad oedd yn amlwg yn yr ymatebion a ddaeth drwy e-bost, oedd bod rhai o'r farn bod y fersiwn Gymraeg o'r ddogfen yn anodd ei deall. Mae'n heriol deall arwyddocâd y canfyddiad hwn — a yw'n ganfyddiad cyffredinol neu a yw mewn gwirionedd yn ymwneud â'r cynnwys ei hun (yn hytrach na'r cyfieithiad). Ceir tystiolaeth ehangach, gan gynnwys o ymgynghoriadau eraill, y gall cyfieithiadau Cymraeg fod yn ffurfiol a bron yn academiaidd eu naws. Gall hyn gymylu'r naws fwy naturiol a hygyrch a geir yn y cwricwlwm.

2.21 Casgliadau

Ar draws ymatebion ac mewn sgysiau mwy agored, roedd cefnogaeth gyffredinol i deimladau a chyfeiriad cyffredinol y cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. Roedd hyn yn tueddu i fod yn seiliedig ar y pwysigrwydd sy'n cael ei roi yn y cwricwlwm ar y plentyn cyfan, datblygiad a chynnydd, chwarae, a phrofiad dilys, ymhlith ffactorau eraill, yr oedd yr ymatebwyr yn teimlo eu bod yn cyfateb i'w gwerthoedd a'u blaenoriaethau eu hunain. Mewn sgysiau agored, roedd gwarchodwyr plant, er enghraifft, yn aml yn mynegi eu bod yn teimlo bod y cwricwlwm yn ddatblygiad cyffrous, a oedd yn eu hystyried yn gyfartal ag ymarferwyr eraill ar draws y gymuned addysgol, ac roeddent yn croesawu hynny.


Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at amrywiaeth o ystyriaethau ehangach yn ymwneud â'r cwricwlwm yn ymarferol. Amlygodd rhai ymatebwyr y tensiynau ymddangosiadol sydd rhwng y prif arferion, systemau a heriau, a'r cwricwlwm newydd, er enghraifft. Roedd y pryderon hyn yn aml yn canolbwyntio ar gwestiynau a heriau blaenorol neu hirsefydlog sy'n wynebu'r sector nas cynhelir, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- mynediad at gyfleoedd hyfforddi cyson o ansawdd uchel,
- recriwtio a chadw ymarferwyr,
- sgiliau ac arbenigedd sylfaenol amrywiol iawn yn y gymuned,
- cyflogau amrywiol iawn ar draws y sector,
- adnoddau, gan gynnwys amser, cyfleusterau a deunyddiau, i fynd ati i newid a gwella ymarfer,
- cydlyniad a chydawnsedd â systemau a phrosesau eraill, gan gynnwys trefniadau arolygu, atebolrwydd a phontio.

Y Cwricwlwm

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr o'r farn bod dogfen y cwricwlwm yn glir, yn ddefnyddiol, yn ddiddorol ac, mewn rhai achosion, yn ysbrydoli. Mewn ymatebion meintiol i'r ymgynghoriad ar-lein, er enghraifft, roedd yr ymatebwyr (ar gyfartaledd) yn ymateb yn gadarnhaol iawn. Roedd canfyddiadau cyffredinol y gwahanol grwpiau o'r cwricwlwm yn amrywio ychydig. Gan


ddod ag ymatebion meintiol at ei gilydd i archwilio canfyddiadau cyffredinol o'r cwricwlwm yn ei gyfanrwydd, y rhai a ymatebodd fel consortia rhanbarthol, cylchoedd chwarae, gwarchodwyr plant, a meithrinfeydd dydd preifat, a oedd yn tueddu i fod â'r farn fwyaf cadarnhaol am y cwricwlwm:



Ar y llaw arall, roedd y rhai a ymatebodd ar ran awdurdodau lleol a Chylchoedd Meithrin ychydig yn llai cadarnhaol na grwpiau eraill o ymatebwyr. Dylid nodi bod y grwpiau hyn yn dal i deimlo bod y canllawiau'n glir ac yn ddefnyddiol ar y cyfan, ond nad oedd hyn mor gryf o gymharu â grwpiau eraill.

Gan fapio hyn ynghyd â'r hyn a gasglwyd o'r gweithdai, roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn sôn yn aml bod y lefelau ymgysylltu a sgiliau ar draws y sector nas cynhelir yn amrywio'n fawr. Teimlai rhai na fyddai gan bob ymarferydd neu leoliad yr adnoddau, y sgiliau na'r hyder i ymwneud yn effeithiol â'r cwricwlwm newydd. O'r safbwyntiau hyn, roeddent yn tueddu i awgrymu y byddai mwy o symleiddio a mwy o ragnodi neu esiamplau yn y ddogfen yn werthfawr o ran cynorthwyo ymgysylltiad.

Roedd canfyddiadau cyffredinol yr ymatebwyr yn gyffredinol hefyd yn amrywio mewn perthynas â gwahanol elfennau neu adrannau yn y cwricwlwm. Fel y maent wedi'u disgrifio yn y cwricwlwm, rolau'r ymarferydd, yr amgylchedd a phrofiadau, yn ogystal â'r llwybrau datblygu, a oedd yn cael eu hystyried yn fwyaf ffafriol, o'u cymharu ag agweddau eraill ar ddogfen y cwricwlwm:



Er bod pob adran (ar y cyfan) yn cael ei hystyried yn glir ac yn ddefnyddiol, roedd yr elfennau neu'r adrannau hynny a oedd yn tueddu i gael eu hystyried ychydig yn llai ffafriol yn cynnwys datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd a'r pedwar diben. Efallai fod yr elfennau hyn yn fwy cymhleth yn ymarferol ac yn haniaethol eu natur, a allai esbonio rhywfaint pam fod y safbwyntiau'n amrywio, y tu hwnt i'r ffordd y maent wedi'u cyfleu yn y cwricwlwm.

Cryfhau'r Cwricwlwm

Lle'r oedd ymatebwyr yn cynnig sylwadau neu awgrymiadau ar sut y gellid cryfhau'r ddogfen, roedd y rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar fân newidiadau o ran strwythur, naws, iaith, cynnwys a phwyslais. Un thema allweddol yn yr awgrymiadau, er enghraifft, oedd y rhai a oedd yn dymuno gwella hygyrchedd y ddogfen i gynulleidfaoedd penodol, yn arbennig y rhai ar draws y sector sydd efallai'n llai cyfarwydd neu'n llai hyderus â'r cysyniadau a/neu'r dulliau sydd yn y ddogfen. Roedd y rhain yn cynnwys awgrymiadau fel mwy o ddefnydd o luniau, ffeithluniau a chrynodebau, er enghraifft, i helpu i gyfleu gwahanol agweddau ar y cwricwlwm a sut maent yn cyd-fynd yn ymarferol.

Cafwyd rhai meysydd o anghytundeb ymhlith yr ymatebwyr ynglŷn â sut y gellid cryfhau'r cwricwlwm. Roedd y rhain yn cynnwys faint o ragnodi a manylion sydd yn y ddogfen. Er bod

y rhan fwyaf yn teimlo bod y ddogfen wedi cael hyn fwy neu lai'n gywir, roedd rhai'n teimlo bod y ddogfen yn rhy hir, a byddent yn croesawu crynodebau byrrach i helpu'r darllenwyr i ganfod eu ffordd drwy'r cynnwys. Teimlai eraill y byddai'r ddogfen yn elwa o gael mwy o ddyfnder a manylion mewn rhai manau er mwyn helpu ymarferwyr ac arweinwyr i ddeall sut i ymateb i'r cwricwlwm yn ymarferol.

Roedd yna ymatebwyr hefyd a hoffai weld y ddogfen yn cael ei symleiddio, gan gynnwys yr iaith a'r cysyniadau a ddefnyddir i gyfleu agweddau ar y cwricwlwm, yn ogystal â'r strwythur a'r cyflwyniad cyffredinol. Mewn ymatebion ar-lein ac mewn sgysiau agored, teimlwyd bod termau fel addysgeg yn heriol i rai — teimlwyd y dylid symleiddio termau o'r fath. Ar y llaw arall, roedd eraill yn teimlo ei bod yn bwysig cefnogi ac annog pobl i ymwneud â chysyniadau a syniadau mwy manwl sy'n llywio ymarfer. O'r safbwyntiau hyn, roedd y ddogfen mewn llawer o feysydd yn gyflwyniad cytbwys o sut beth yw ymarfer effeithiol, y dylai pob ymarferydd anelu ato.

Roedd thema sylweddol arall yn canolbwyntio ar y syniad o gyfathrebu gwahaniaethol. Roedd hyn yn cynnwys cyfleu'r cwricwlwm newydd yn effeithiol i wahanol gynulleidfaoedd. Roedd rhieni a gofalwyr, er enghraifft, er nad hwy oedd prif gynulleidfa'r ddogfen, ar y cyfan yn ei chael yn anodd ei deall. Wrth gyfleu prif fyrddwn y cwricwlwm, roedd y rhieni a'r gofalwyr yn gefnogol iawn ar y cyfan. Roeddent yn awyddus i wybod beth roedd eu plant yn ei ddysgu, ac roedd y rhan fwyaf yn teimlo y byddent yn croesawu enghreifftiau mwy ymarferol o'r gweithgareddau yr oedd eu plant yn cymryd rhan ynddynt fel ffordd i ddeall y cwricwlwm a'r hyn y mae'n ei olygu i'w plant. Ymarferwyr a meithrinfeydd oedd y ffynhonnell yr oeddent yn ymddiried fwyaf ynddi, ac roedd y rhieni'n teimlo (ar y cyfan) y dylai hyn fod yn fwy rheolaidd a chyson.

Cafwyd awgrymiadau hefyd a oedd yn mynd y tu hwnt i'r ddogfen ei hun. Ymhlith awgrymiadau eraill, roedd y rhain yn cynnwys pwysigrwydd darparu fersiynau print o'r ddogfen ar gyfer y rhai y mae'n well ganddynt gopïau caled. Teimlai eraill y gellid cynnwys hyperddolenni mewn fersiynau digidol i gyfeirio at gymorth neu ddeunyddiau pellach a allai fod yn werthfawr er mwyn helpu'r darllenwyr i ddeall a chanfod eu ffordd drwy'r cwricwlwm newydd.

Ar y cyfan, teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y cwricwlwm, fel ag y mae, yn glir ac yn effeithiol. Ymhlith yr holl grwpiau, ystyriwyd bod y cwricwlwm ar y cyfan yn werthfawr ac yn llawn gwybodaeth er mwyn helpu ymarferwyr a lleoliadau i ddeall, myfyrio a gweithredu ar y cwricwlwm newydd. At hynny, cafwyd cydnabyddiaeth gan rai ymatebwyr ynglŷn â'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm newydd, a ystyriwyd yn gadarnhaol:

Mae'r llwybrau datblygu yn amlwg yn bwydo i mewn i gam cynnydd 1 ac yn amlinellu'r hyn y mae ar blant ei angen yn gynhenid ar y cam datblygu hwn. Mae'n amlwg ei fod wedi'i ysgrifennu gan ymarferwyr sydd â dealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant ac addysgeg chwarae. Dyma newidiaeth braf! Mae'n amlwg bod dull o'r gwaelod i fyny wedi'i ddefnyddio ac mae'r cwricwlwm yn cynnwys yr holl blant sy'n mynychu ein lleoliad.

Arweinydd, Meithrinfa ddydd breifat

wavehill™

social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

01545 571711

wavehill@wavehill.com

wavehill.com

